# Helen Taylor – aelod Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

Yn amlinellu hanes proffesiynol a chymwysterau aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru.

Mae Helen yn Gyfarwyddwr Technegol profiadol sy'n gweithio o fewn cadwyni cyflenwi bwyd, diod a deunydd pecynnu gan wasanaethu dros 30 mlynedd yn y sector. Rôl Helen yn ZERO2FIVE, Prifysgol Metropolitan Caerdydd yw arwain y tîm technegol i weithio gyda busnesau bach a chanolig ar draws pob categori cynnyrch yn y Deyrnas Unedig (DU). Mae hi'n arwain tîm o dechnolegwyr ym mhob agwedd ar drosglwyddo gwybodaeth, rheoleiddio, diogelwch bwyd, effeithlonrwydd, gweithgynhyrchu, lleihau gwastraff, datblygu cynnyrch newydd, maeth, ailfformiwleiddio cynnyrch a chydymffurfiaeth. Yn ei rôl mae Helen yn cydweithredu â chyrff diwydiant, aelodau clwstwr a rhanddeiliaid ledled Cymru, y DU a thu hwnt.

Cyn ei rôl bresennol yn y byd academaidd roedd Helen yn rheolwr Technegol profiadol gyda chwmnïau bwyd byd-eang mawr fel Cargill am dros 15 mlynedd. Mae gan Helen BSc mewn Gwyddorau Biolegol Cymhwysol a Diploma mewn Technoleg Pecynnu, mae'n Wyddonydd Siartredig, yn Rheolwr Diogelwch Bwyd cofrestredig, yn Gymrawd yr IFST, yn Llysgennad STEM ac yn archwilydd trydydd parti ar gyfer SALSA a Diogelwch Bwyd BRCGS.

## Buddiannau personol

**Ymgyngoriaethau a/neu gyflogaeth uniongyrchol**

- Cyfarwyddwr Technegol ZERO2FIVE, Canolfan y Diwydiant Bwyd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

**Gwaith am ffi**

- Dim

**Cyfranddaliadau**

- Dim

**Clybiau a sefydliadau eraill**

- Cymdeithas Ryngwladol Diogelu Bwyd (IAFP, UDA)
- IAFP, Cadeirydd Pwyllgor Gwyddonol Symposiwm Ewrop
- Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd (IFST) – Ymddiriedolwr Bwrdd
- IFST – Cadeirydd y Pwyllgor Datblygiad Proffesiynol

- Cynrychiolydd IFST ar Weithgor Trawsbleidiol Llywodraethau Cymru ar STEM
- SALSA – Cymeradwyaeth Cyflenwyr Diogel a Lleol (DU), Archwilydd a Mentor
- SALSA – Cymeradwyaeth Cyflenwyr Diogel a Lleol (DU), Pwyllgor Cynghori Technegol

**Buddiannau personol eraill**

- Dim

## Buddiannau nad ydynt yn rhai personol

**Cymrodoriaethau**

- Dim

**Cymorth anuniongyrchol**

- Dim

**Ymddiriedolaethau**

- Dim

**Tir ac eiddo**

- Dim

**Penodiadau cyhoeddus eraill**

- Dim

**Buddiannau eraill nad ydynt yn rhai personol**

- Dim